

**Cofnodion Pwyllgor Clwb Mynydda Cymru a gynhaliwyd ar nos Lun, 13eg Hydref 2014 y Ystafell Gwynant, Plas y Brenin, Capel Curig**

**Presennol:** Rhys (RD) – Cadeirydd, Iolo (IPR), Eryl (EO), Richard (RR), Gareth (GR), Sian (SS)

**Ymddiheuriadau:** Anita, Dewi, Mark, Iolo (ap Gwynn), John, Sioned

<b>1.</b>	<p><b><u>COFNODION</u></b> Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 26ain o Ebrill, 2014 fel rhai cywir.</p> <p>Materion yn codi</p> <p><u>Gwefan y Clwb</u></p> <p>Cytunwyd y byddai EO yn cael gair â laG ynglŷn â dileu cynnwys y dudalen newyddion ar ol cyfnod priodol o dyweder 2-3 mis</p> <p>Bydd RD yn galw â Chwmni Brodwaith ym Mhentrefoelas i weld os yw'n bosib iddynt greu bathodynau brethyn/sticeri ceir ar gyfer y Clwb</p>
<b>2</b>	<p><b><u>EISTEDDFOD GENEDLAETHOL 2014</u></b></p> <p>Cafwyd adborth ynglŷn â'r ddarlith a gynhaliwyd yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llanelli ym mis Awst eleni. Adroddwyd</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Mai Arwel Michael oedd yn traddodi'r ddarlith ym Mhabell y Cymdeithasau ar "Cymraeg Mynyddoedd Sir Gar/y Bannau" yn dathlu enwau Cymraeg cyfoethog yr ardal.</li><li>• Roedd lluo o broblemau ymarferol wedi codi o safbwynt cynnal y ddarlith gyda'r digwyddiad blaenorol yn hwyr yn gorffen a dim amser i osod offer yn cael ei ganiatau. Bu'r amharu fu cyn y diwedd gan y stiwradaid yn brofiad anymunol</li></ul> <p>Cytunwyd</p> <ol style="list-style-type: none"><li>1. Y byddai RD yn ysgrifennu at drefnwyr yr Eisteddfod i sôn am y problemau a gafwyd ac yn eu hannog i gymryd camau i sicrhau na fyddai rhywbeth cyffelyb yn digwydd eto</li><li>2. Dylid gyrru copi o'r llythyr i Arwel Michael a Dyfir Gwent</li><li>3. Dylid ystyried cael Arwel Michael yn ôl i draddodi ei ddarlith yn ystod Cyfarfod Blynyddol neu noson gymdeithasol dan ofal y clwb</li><li>4. Byddai angen ystyried trefniadau ar gyfer y ddarlith yn Eisteddfod 2015 ym Meifod yng nghyfarfod y pwyllgor ym mis Ionawr</li></ol>
<b>3</b>	<p><b><u>Mynyddoedd Pawb</u></b></p> <p>Cafwyd diweddariad gan EO ar y cynnydd gyda'r prosiect</p> <p>Adroddwyd</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Bod y pwyllgor wedi awdurdodi taliad o £275 (cyfrannodd CMP, Plas Menai a Phlas y Brenin yr un swm) i alluogi'r prosiect gael arian 'punt am bunt' i fedru cael grant i fwrw ymlaen â'r cynllun.</li><li>• Bod Menter Iaith Conwy yn rhoi cefnogaeth weinyddol i'r ymgyrch ac yn gobeithio datblygu gwefan fydd yn rhoi gwybodaeth am enwau, hanes, cefndir enwau mynyddoedd ac ati. Roedd yna fwriad i ddarparu AP ar gyfer ffonau hefyd fyddai'n sicrhau bod gwybodaeth ar gael yn y fan a'r lle ar y mynydd.</li><li>• Eu bod yn canolbwyntio ar yr ardal rhwng Pen yr Ole Wen a Chapel Curig yn y lle cyntaf ac wedyn ymestyn i weddill y Carneddau</li><li>• Bwriedir cynnal gynhadledd ym Mhlas Tan y Bwlch yn niwedd Tachwedd</li><li>• Gan nad oedd ganddynt gyllideb eu bod wedi gofyn os y byddai'r clwb yn fodlon cyfrannu ychwaneg o arian er mwyn hyrwyddo'r gwaith yn arbennig trefnu'r</li></ul>

	<p style="text-align: center;">gynhadledd</p> <p>Cytunwyd</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Cadarnhau y penderfyniad a wnaed gan y swyddogion i roi swm o £275 i'r prosiect a chytuno i roi swm pellach o £250 i drefnwyr y prosiect</li> <li>2. Wrth roi'r arian dylid gofyn iddynt sicrhau eu bod yn cadw mantolen ac yn adrodd yn ôl i'r pwyllgor ynglyn a sut y maent wedi gwario'r arian a dderbyniasant.</li> </ol>	
<p>4</p>	<p><b><u>TÂL AELODAETH</u></b></p> <p>Adroddwyd</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Bod CMP bellach wedi cadarnhau y byddant yn cynyddu'r taliadau a wneir gan glybiau ar ran eu haelodau o'r £11.95 yr aelod presennol i £13.25</li> <li>• Roedd yn rhaid i'r pwyllgor ystyried os oedd angen ystyried cynyddu'r tâl aelodaeth presennol o £15</li> <li>• Mater i'r Cyfarfod Blynyddol fyddai awdurdodi codi'r tâl aelodaeth a byddai'n rhaid i'r pwyllgor felly wneud argymhelliad ar hyn i'r cyfarfod ym mis Tachwedd</li> <li>• Yn y drafodaeth ar hyn roedd yna deimlad y dylid ystyried codi'r ffi i swm o £20 a fyddai yn golygu wedyn na fyddai'n rhaid ei adolygu eto am gyfnod sylweddol</li> </ul> <p>Adroddwyd gan GR</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Bod angen ystyried os y gellid defnyddio'r drefn o dderbyn taliadau drwy Ddebyd Uniongyrchol a fyddai yn fwy hwylus ond byddai angen amser i sefydlu hyn.</li> <li>• Ei fod yn dal i wneud ymholiadau i'r posibilrwydd o gofrestru'r Clwb fel corff elusenol hefo'r HMRC fel y gallai'r clwb dderbyn ad-daliad rhodd cynorth ar gyfer pob aelod.</li> </ul> <p>Cytunwyd</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Argymhell i'r Cyfarfod Blynyddol y dylid codi'r tâl aelodaeth i £20</li> <li>2. Dylid gwneud mwy o ymchwil i'r posibilrwydd o sefydlu trefn i dderbyn tâl aelodaeth drwy Ddebyd Uniongyrchol.</li> <li>3. Os na fyddai'n ymarferol gwneud hyn erbyn dechrau 2015 ar gyfer taliadau 2015 gellid hepgor yr angen i godi'r tâl aelodaeth am flwyddyn tan 2016 (yn sgil y ffaith fod gan y clwb swm o arian wrth gefn yn ei gyfrif banc) er mwyn caniatu amser i sefydlu'r drefn newydd</li> </ol>	
<p>5</p>	<p><b><u>CYNLLUNIO RHAGLEN WEITHGAREDDAU'R CLWB</u></b></p> <p>Adroddodd EO ei fod yn dechrau trefnu rhaglen weithgareddau am y cyfnod Rhagfyr i Mawrth 2015.</p> <p>Roedd trefnu gweithgareddau dringo yn ystod y gaeaf wedi bod yn broblemus oherwydd problemau hefo'r tywydd. Roedd yna hefyd broblem o gael unigolion i arwain gweithgareddau dringo, rhywbeth y byddai'n rhaid i'r pwyllgor ei ystyried os am eu cynnwys yn yr rhaglen ar gyfer yr haf. Efallai y byddai'n rhaid meddwl talu i arweinydd proffesiynol dros gyfnod yr haf?</p> <p>Oherwydd bod sawl aelod wedi gorfod canslo oherwydd amgylchiadau personol rhagwelir y byddai'r clwb yn gwneud colled ar y penwythnos a gynhaliwyd yn Ardal y Llynnoedd yn ddiweddar.</p> <p>Cytunwyd</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Dylid cael wythnos yn yr Alban ym mis Chwefror ar y rhaglen eto</li> <li>2. Dylid cael noson gymdeithasol ar 25 Hydref yn Nant Gwynant</li> <li>3. Gyda gweithgareddau dros y Nadolig byddai RD yn trefnu taith ar 27 Rhagfyr. Dylid cael taith i fyni'r Wyddfa ar ddydd Calan hefyd</li> <li>4. Nodi na fydd yn bosib cynnal gweithgareddau yn Rhyd Ddu ym mis Ionawr eleni gan y bydd y Ganolfan ar gau</li> </ol>	

6	<p><b><u>CYFARFOD BLYNYDDOL 2014</u></b></p> <p>Adroddwyd ar y bwriad i gynnal y Cyfarfod Blynyddol yng ngwesty Fictoria, Llanberis ar nos Sadwrn 22 Tachwedd 2014 gyda Dr Gwyn Roberts, Deiniolen i fod yn wr gwadd.</p> <p>IR i sicrhau pa offer y byddai ei angen ar gyfer y noson</p> <p>Dylid nodi fod RD yn sefyll i lawr fel Cadeirydd ar ddechau'r cyfarfod ac y byddai RR yn cymryd drosodd fel y Cadeirydd newydd.</p>
7	<p><b><u>AELODAETH Y PWYLLGOR</u></b></p> <p>Cytunwyd y byddai IPR yn sefydlu pa aelodau presennol o'r pwyllgor oedd yn barod i barhau i wasanaethu arno a pha rai oedd yn dymuno gorffen. Cytunwyd hefyd y dylid cysylltu hefo rhai o aelodau eraill y clwb i weld os yr oeddynt yn barod i fod ar y pwyllgor.</p> <p>Nodwyd fod SS wedi cytuno i fod yn Is-Gadeirydd</p>
8	<p><b><u>CHWALU CARNEDDI</u></b></p> <p>Adroddodd RD y sylwyd wrth fynd o gwmpas mynyddoedd Eryri fod nifer sylweddol o garneddi newydd a di-bwrpas yn ymddangos, Roedd yna amheuaeth os oedd angen cymaint ohonynt ac roedd pobl i weld yn cribo'r lle i godi caer o beth, gan ddinoethi'r pridd a chreu erydiad posibl.</p> <p>Cytunwyd y dylid cysylltu hefo Awdurdod y Parc Cenedlaethol a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol (fel un o brif dir feddianwyr yr ardal) i weld beth oedd eu teimladau hwy am y sefyllfa ac yn gofyn, os oedd ganddynt yr un pryderon, os y gallasai y clwb fod o gymorth iddynt i geisio datrys y broblem.</p>
9	<p><b><u>LLYFRYN MYNYDDA</u></b></p> <p>Adroddodd EO eu bod wedi bod yn trafod hefo Myrddin ap Dafydd ynglŷn â'r posibilrwydd o gyhoeddi llyfr swmpus safonol yn y Gymraeg ar fynydda.</p> <p>Roedd MaD yn credu fod yna farchnad i lyfryn o'r fath ond y byddai angen swm o arian £1K-£2K i'w galluogi i symud ymlaen</p> <p>Yn y drafodaeth ar hyn roedd teimlad bod yna le i gyhoeddi llyfryn o'r fath</p> <p>Cytunwyd</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Gofyn i EO gael sgwrs bellach hefo MaD i roi mwy o gig ar beth fyddai ynghlwn â chynhyrchu llyfryn o'r fath.</li> <li>2. Dylid gofyn iddo hefyd os yn bosib wneud cais i'r Cyngor Llyfrau am grant tuag at y gost o'i gyhoeddi.</li> <li>3. Os nad yn bosib cael cymorth ariannol yna byddai'n rhaid dod a'r mater yn ôl i'r pwyllgor gyda'r posibilrwydd o'r Clwb yn rhoi cefnogaeth ariannol i'r prosiect</li> </ol>
10	<p><b><u>OFFER</u></b></p> <p>Trafodwyd y sefyllfa gydag offer y clwb.</p> <p>Cytunwyd</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Gofyn i Arwel os y byddai'n barod i ddal gafael ar offer y clwb</li> <li>2. Gofyn i GR archebu 4 lloches newydd</li> <li>3. Dylid ystyried defnyddio'r Wefan i gofnodi gan pwy yr oedd offer y Clwb yn cael ei gadw</li> </ol>

<p><b>11</b></p>	<p><b><u>Y FFORWM</u></b></p> <p>Mynegodd SS ei phryder nad oedd llawer o ddefnydd yn cael ei wneud o'r Fforwm, a hyn yn cwtogi ei effeithiolrwydd.</p> <p>Cytunwyd</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Dylid atgoffa yr aelodau yn y Cyfarfod Blynyddol i wneud defnydd o'r fforwm</li> <li>2. Dylid anfon neges atgoffa i'r aelodau yn rhoi mwy o wybodaeth am y fforwm</li> <li>3. Byddai EO yn meddwl am ddulliau o hyrwyddo'r fforwn e.e annog arweinyddion i roi manylion eu teithiau ar y fforwm</li> </ol>	
<p><b>12</b></p>	<p><b><u>CYNGOR MYNYDDA PRYDEINIG</u></b></p> <p>Dim penodol i'w adrodd.</p>	
<p><b>13</b></p>	<p><b><u>PARTNERIAETH AWYR AGORED</u></b></p> <p>Dim penodol i'w adrodd.</p>	
<p><b>14</b></p>	<p><b><u>CYFARFODYDD NESAF Y PWYLLGOR</u></b></p> <p>Cytunwyd y bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal yn ystod mis Ionawr ar ôl un o deithiau'r clwb ar ddydd Sadwrn</p>	